

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(n) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2016 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gofal Cymdeithasol
Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal
Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 80(1)(a) a (b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r disgrifiadau o weithwyr gofal cymdeithasol y mae rhaid cadw cofrestr ar eu cyfer.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(n) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2016 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol
Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal
Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 80(1)(b) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 187(2)(n) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [].

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(1) 2016 dccc 2.

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr “GCC” (“*SCW*”) yw Gofal Cymdeithasol Cymru(1).

Pennu gweithwyr gofal cymdeithasol

3.—(1) Mae’r gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir ym mharagraff (2) wedi eu pennu at ddibenion adran 80(1)(b) o’r Ddeddf (y gofrestr).

(2) Y gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir yw’r personau hynny—

- (a) sy’n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig(2) ynddo neu ohono;
- (b) sydd, yn ystod eu cyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth(3), yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad—
 - (i) â gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Rhan 1 o’r Ddeddf a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant, neu
 - (ii) â gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i’r Ddeddf, a ddarperir gan y darparwr hwnnw;
- (c) sy’n ymgymryd ag unrhyw gwrs a gymeradwyir gan GCC o dan adran 114(1)(a) o’r Ddeddf (cymeradwyo cyrsiau etc.).

Enw

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

-
- (1) Ailenwyd Cyngor Gofal Cymru yn Ofal Cymdeithasol Cymru gan adran 67(3) o’r Ddeddf.
 - (2) I gael ystyr “gwasanaeth rheoleiddiedig”, gweler adran 2 o’r Ddeddf.
 - (3) I gael ystyr “darparwr gwasanaeth”, gweler adran 3(1)(c) o’r Ddeddf.